Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiad Blynyddol Cadw

Ebrill 2024—Mawrth 2025






Teulu'n archwilio un o'r gweithiau celf 'Gwnaed â Llaw', gan ddod â straeon y dynion a'r menywod a adeiladodd ac a weithiodd yng Nghastell Caernarfon, Gwynedd yn fyw.

cadw.llyw.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Amgylchedd hanesyddol wedi'i gadw a'i warchod sy'n cefnogi cynaliadwyedd, gweithredu ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth | 8 |
| Ehangu mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, a mwynhad a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir | 15 |
| Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n gryf at les economaidd Cymru a'i chymunedau | 22 |
| Datblygu ein pobl, ein prosesau a'n partneriaethau i'n galluogi i wireddu ein huchelgeisiau | 24 |
| Atodiad | 25 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54595, ISBN digidol 978-1-83745-659-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

**Cenhadaeth greiddiol Cadw yw 'gofalu am ein lleoedd hanesyddol ac ysbrydoli cenedlaethau heddiw ac yfory'. Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae pawb yn gofalu am ein lleoedd hanesyddol, yn eu deall a'u rhannu.**

Yn 2024, roedd Cadw'n dathlu deugain mlynedd ers ei sefydlu, a bu'n gyfle gwerthfawr i fyfyrio ar ein cyflawniadau ers hynny. Er mwyn nodi'r garreg filltir arwyddocaol hon, cyflwynodd Cadw raglen o weithgareddau ledled Cymru a oedd yn tynnu sylw at yr henebion arbennig sydd yn ein gofal.

Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys penwythnosau hanesyddol o edrych ar drysorau canoloesol, ysgolion marchogion a chleddyfau i blant, ac arddangosfeydd hedfan gydag adar mawreddog. Fe wnaethom hefyd gyflwyno *Llawlyfr Cadw: Canllaw i fwy na 100 o leoedd hanesyddol yng Nghymru*. Cafodd hwn ei ddosbarthu i holl aelodau Cadw yn rhad ac am ddim ac mae ar gael i'w brynu yn ein siopau.

Dyma gipolwg ar rai o'n cyflawniadau dros y 40 mlynedd diwethaf:


## Gwarchod a dathlu treftadaeth Cymru

**Ers ffurfio Cadw yn 1984, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran diogelu a hyrwyddo amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae nifer yr adeiladau rhestredig wedi mwy na threblu, gyda thros 30,000 ohonyn nhw bellach, tra bo nifer yr henebion dynodedig wedi codi o 2,700 i fwy na 4,200.**

Mae Cadw wedi cefnogi Gweinidogion Cymru i dorri cwys newydd yn neddfwriaeth Cymru: Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 oedd cyfraith ddwyieithog gyntaf Cymru er budd yr amgylchedd hanesyddol.

Dros y deugain mlynedd diwethaf, mae Cadw hefyd wedi bod yn allweddol wrth sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i bedwar lle yng Nghymru — Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd (1986), Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon (2000), Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (2009) a Thirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru (2021).





Top: Roedd 2024 yn nodi 40 mlynedd ers sefydlu Cadw, gan gynnig cyfle i fyfyrio ar bedwar degawd o gyflawniad.

Canol: Y Capel yng Ngholeg Sant Mihangel, Llandaf, Caerdydd — yr adeilad cyntaf yng Nghymru a adeiladwyd ar ôl y rhyfel i gael statws rhestredig Gradd I.

Gwaelod: Chwarel Lechi'r Penrhyn, Gwynedd, rhan o Dirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru.
© Hawlfraint y Goron: CBHC





Trwy gydol y cyfnod hwn, rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn gwaith cadwraeth pwysig a datblygu dehongliad arloesol i helpu i ddod â straeon ein henebion yn fyw. Mae ein prosiectau allweddol yn cynnwys creu canolfannau ymwelwyr newydd yng Nghastell Harlech a Chastell Dinbych, a rhaglenni cadwraeth helaeth yn Abaty Castell-nedd, Castell Coety, Castell Coch a Chastell Conwy. Rydym hefyd wedi cyflawni prosiectau ailddatblygu a chadwraeth arloesol yng Nghastell Caernarfon a Llys a Chastell Tretŵr.

Dros y degawd diwethaf, mae ein tîm mewnol o seiri maen, seiri coed a syrfewyr arbenigol — Cadwraeth Cymru — wedi treulio dros 408,000 o oriau yn gwarchod rhai o'n henebion hanesyddol llai a mwy anghysbell ledled Cymru. Yn 2010, cafodd eu harbenigedd gydnabyddiaeth ryngwladol, a rhoddwyd Gwobr fawreddog Europa Nostra iddynt am 15 mlynedd o waith cadwraeth yn Llys yr Esgob Tyddewi, Sir Benfro.

Un o gyflawniadau cynharaf Cadw oedd achub ac adfer Plas Mawr yng Nghonwy — sydd bellach yn un o'r enghreifftiau gorau o dŷ tref Elisabethaidd yn y DU, ac yn denu llawer iawn o ymwelwyr.

Mae ein hymrwymiad i wella profiad ymwelwyr yn parhau. Ar hyn o bryd mae Cadw yn gweddnewid Castell Caerffili — caer ganoloesol fwyaf Cymru — gan adnewyddu'r neuadd fawr a buddsoddi mewn cynllun dehongli newydd i wella'r profiad i ymwelwyr y safle rhyfeddol hwn o'r drydedd ganrif ar ddeg.

Bob blwyddyn, mae Cadw yn cefnogi perchnogion, ceidwaid a chymunedau trwy gynnal rhaglenni Grant Henebion a Grant Adeiladau Hanesyddol, ac yn eu helpu i ofalu am a chynnal a chadw adeiladau hanesyddol, henebion a safleoedd archeolegol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dros y 40 mlynedd diwethaf, mae'r cynlluniau hyn wedi cefnogi cannoedd o brosiectau ledled y wlad.





Top, ar y chwith: Porth y Brenin yng Nghastell Caernarfon yn dilyn prosiect cadwraeth ac ailddatblygu sylweddol, gan wella mynediad i un o byrth mwyaf eiconig Cymru.

Isod, ar y chwith: Cadwraeth Cymru: Treuliwyd 408,000+ o oriau yn gwarchod henebion hanesyddol Cymru dros y degawd diwethaf.

Top, ar y dde: Argraff arlunydd o'r addurno wedi'i ysbrydoli gan gelf ganoloesol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y neuadd fawr yng Nghastell Caerffili.

Isod, ar y dde: Amddiffynfa ganoloesol anghysbell ger Erwyd, Powys, wedi'i wella trwy ein cynlluniau grant gyda gwaith atgyweirio yn sgil erydu, clirio coed a gosod ffensys newydd ar gyfer rheoli'r safle'n well.

# Addysgu cymunedau a chroesawu’r dyfodol




Uchod: Arweiniodd Alex Wharton weithdy barddoniaeth yn Abaty Nedd gyda disgyblion o Ysgol Gyfun Dŵr y Felin.

**Mae gwaith Cadw i addysgu ac ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru — yn enwedig cenedlaethau iau — wedi bod yn sylweddol. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal mwy na 2,500 o ddigwyddiadau cymunedol ac yn croesawu hyd at 100,000 o ymweliadau addysgol â’r henebion yn ein gofal.**

Mae mentrau megis Ceidwaid Ifanc yn cynnwys cydweithio’n agos ag ysgolion i ymweld â’n henebion ac i helpu disgyblion i feithrin ymdeimlad o berchnogaeth, treftadaeth a pherthyn. Mae gan bob heneb yn y fenter ei brosiect penodol, ac mae’r gweithgareddau’n amrywio o greu tapestrïau a chartwnau i astudio mathemateg, gwyddoniaeth a llenyddiaeth, yn ogystal â chyflwyno disgyblion i sgiliau treftadaeth traddodiadol, gan gynnwys gwaith maen.

Mae arloesi hefyd wedi siapio ein dull o ddysgu. Ers creu’r Byd Cadw cyntaf yn Minecraft, mae sut mae plant yn profi treftadaeth Cymru wedi cael ei chwyldroi, a bellach gallant grwydro 20 o safleoedd Cadw trwy dechnolegau AR a VR. Dyma’r Minecraft Cymraeg ei iaith cyntaf erioed.

Mae Cadw yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth wella ymwybyddiaeth o’r risgiau a’r cyfleoedd a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd a’r angen i addasu. Ym mis Chwefror 2020, fe gyhoeddom *Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru: Cynllun Addasu’r Sector*, ynghyd â chyfres o lyfrynnau canllaw cefnogol a ddyluniwyd i helpu perchnogion adeiladau hanesyddol i baratoi eu heiddo ar gyfer heriau newid hinsawdd y dyfodol.



Mae Byd Cadw yn Minecraft yn galluogi plant i archwilio 20 o safleoedd hanesyddol, gan gynnwys Castell Conwy, trwy dechnolegau AR a VR trochol.

## Llywodraethu Cadw

**Mae fframwaith llywodraethu Cadw yn ein cefnogi i gyflawni ein cenhadaeth a'n hamcanion strategol yn effeithiol. Caiff Uwch Dîm Gweithredol Cadw ei gefnogi gan Fwrdd Cadw, sy'n cynnig cyngor annibynnol, heriau adeiladol a safbwyntiau newydd — gan helpu Cadw i ymateb i gyfleoedd a heriau yn awr ac yn y dyfodol.**

Yn ystod 2024–25, bu Bwrdd Cadw, o dan arweinyddiaeth y Cadeirydd Dros Dro, Peter Wakelin, yn cydweithio â Cadw i fwrw ymlaen â'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu Cadw, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023. Roedd y meysydd o gynnydd allweddol yn cynnwys cynnal Adolygiad Effeithiolrwydd Bwrdd Cadw; sefydlu Fframwaith Gweithredol a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Phrif Weithredwr Cadw, a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2025; a chyfrannu at y gweithgor sy'n adolygu'r berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

## Cynllun Busnes 2024–25

**Dyma dair prif uchelgais ein cynllun busnes ar gyfer 2024–25:**

- Amgylchedd hanesyddol wedi'i gadw a'i warchod sy'n cefnogi cynaliadwyedd, gweithredu ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth.
- Ehangu mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, a mwynhad a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir.
- Amgylchedd hanesyddol sy'n cyfrannu'n gryf at les economaidd Cymru a'i chymunedau.

Ac mae un thema alluogi, sef:

- Datblygu ein pobl, ein prosesau a'n partneriaethau i'n galluogi i wireddu ein huchelgeisiau.

Mae'r datganiad blynyddol hwn wedi'i drefnu yn ôl y pedair thema hon, gyda chrynodeb byr o'r cyraeddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn.




Teulu'n sgwrsio â gwirfoddolwr ym Mhlas Mawr, Conwy, i ddysgu mwy am hanes y tŷ Elisabethaidd.

# Amgylchedd hanesyddol wedi’i gadw a’i warchod sy’n cefnogi cynaliadwyedd, gweithredu ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth

## Henebion Cadw

**131**

o henebion, gan gynnwys 19 o safleoedd wedi’u staffio.

**£3,204k**

Gwariant ar brosiectau buddsoddi a ariennir gan gyfalaf.

**£7,793k**

Gwariant ar gadwraeth a ariennir gan refeniw.

**£2,308k**

Gwariant ar reoli cyfleusterau ar safleoedd Cadw.

## Yr amgylchedd hanesyddol ehangach

**£1,521k**

Cyfanswm gwerth y grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd i brosiectau a gefnogir drwy’r cynlluniau grant adeiladau hanesyddol, cynnal a chadw, gwaith brys a henebion hynafol; a grantiau cyfalaf newydd sydd wedi’u hymrwymo i gefnogi asedau hanesyddol, gan gynnwys:

- **£1,247k** i brosiectau sy’n gwarchod ac yn cynnal adeiladau hanesyddol, gan gynnwys 9 grant adeiladau hanesyddol newydd a £450k i’r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol i gefnogi dros 25 o brosiectau drwy grantiau hyfywedd prosiectau, grantiau gwaith cyfalaf, grantiau datblygu prosiectau a rhaglenni cronfa effaith treftadaeth.
- **£269k** i gefnogi prosiectau cadwraeth ar gyfer 7 heneb gofrestredig.
- **£5k** i gefnogi 1 grant gwaith brys.

**£1,756k**

Cyfanswm gwerth y grantiau refeniw a ddyfarnwyd i 20 sefydliad, gan gynnwys £1,312k i Heneb i ddarparu gwasanaethau cynghori archeolegol a threftadaeth rhanbarthol hanfodol.

**154**

O geisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig wedi’u penderfynu.

## 169

O asesiadau sy'n gysylltiedig â dynodiad wedi'u cwblhau (rhestru a chofrestru newydd, tynnu a dad-gofrestru a diwygiadau eraill i ddynodiadau presennol), sy'n cynnwys 119 o asesiadau desg cam 1 o adeiladau hanesyddol, 44 asesiadau arolwg cam 2 o adeiladau hanesyddol, a 6 asesiad heneb gofrestredig.

## 24

Adeilad wedi'i hychwanegu at y rhestr statudol o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Hefyd, cafodd 1 adeilad ei uwchraddio, rhoddwyd 1 tystysgrif imiwnedd, cafodd 80 o ddisgrifiadau rhestru eu diwygio, a chafodd 12 adeilad eu dad-restru.

## 2

Heneb wedi'i ychwanegu at y rhestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol a 2 ddiwygiad i'r rhestrau presennol.

## 1

Gardd wedi'i hychwanegu at y Gofrestr Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

## 1,399

O ymgynghoriadau cais cynllunio wedi'u penderfynu.

## 414

O ymatebion i hysbysiadau am ganiatâd adeilad rhestredig.

## 200

O ymatebion i ymgynghoriadau ar eithriadau crefyddol ar gyfer adeiladau rhestredig.

## 374

O ymgynghoriadau eraill, gan gynnwys gwaith achos ar apeliadau, cyn-geisiadau anstatudol, trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru, asesiadau effaith amgylcheddol, asesiadau effaith strategol, ymgynghoriadau cwmnïau cyfleustodau ac ymatebion i ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

# Amgylchedd hanesyddol wedi'i gadw a'i warchod sy'n cefnogi cynaliadwyedd, gweithredu ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth

**Yn 2024–25, parhaodd y gwaith o ddiogelu Castell Coch rhag y tywydd pan lansiwyd prosiect cadwraeth gwerth £2m i atgyweirio Tyrrau'r Ffynnon a'r Gegin a'u hamddiffyn rhag y cynnydd mewn glaw difrifol a gwyntoedd uchel sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Roedd hwn yn dilyn y gwaith cadwraeth llwyddiannus a wnaed ar y Gorthwr yn 2019.**

Codwyd sgaffaldiau cymhleth wedi'u gorchuddio gan ddeunydd lliwgar i amddiffyn Tŵr y Ffynnon rhag y gwynt a'r glaw tra bu'r seiri maen yn crafu'r hen sment o'r muriau — cam cyntaf hollbwysig a adawodd yr adeilad i sychu. Pan dynnwyd yr hen sment, gellid gweld dŵr yn llifo o'r gwaith cerrig. Bydd gwaith atgyweirio i'r toeau, y simneiau a'r ffenestri hefyd yn cael ei wneud fel rhan o'r prosiect.

Rhoddodd Cadw flaenoriaeth i'r gwaith hwn ochr yn ochr â gosod system wresogi newydd i helpu'r castell i sychu ac i atal ei addurniadau mewnol anhygoel rhag dirywio ymhellach. Mae dadansoddiad paent wedi'i gynllunio ar gyfer 2025–26 i ddysgu mwy am y cynlluniau addurniadol allanol a mewnol gwreiddiol.

Mae Cadw yn parhau i flaenoriaethu cynaliadwyedd ac addasu i'r hinsawdd wrth ofalu am ein heiddo. Eleni, penodwyd Rheolwr Cynnal a Chadw Tiroedd i arwain y gwaith o drawsnewid tiroedd henebion, gan wella bioamrywiaeth a chynnal difyrrwch trwy'r tymhorau.

Er mwyn cefnogi ymgyrch Cymru i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon, fe wnaethom barhau â'r gwaith o osod ffynonellau ynni adnewyddadwy ar draws ein hystâd, gan gynnwys pympiau gwres o'r ddaear newydd yng Nghastell Caernarfon a Chastell Caerffili.

Gorffennwyd y gwaith o amnewid ein fflyd cerbydau gwaith tanwydd ffosil am rai trydan, a chyflwynwyd rhwydwaith gwefru cerbydau trydan ar draws yr henebion allweddol. Gosodwyd cyfanswm o 37 o bwyntiau gwefru ar 13 safle er budd ymwelwyr a staff. Yn 2024–25, fe wnaeth y cerbydau trydan a ddefnyddiodd ein pwyntiau gwefru deithio 125,300 milltir, gan arbed 24 tunnell o $CO_2$ sy'n cyfateb i 145 o goed.






Top: Tŵr y Ffynnon, Castell Coch o dan sgaffaldiau yn ystod prosiect cadwraeth gwerth £2 miliwn i wella ei wydnwch rhag tywydd garw.

Uchod: Pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod yn Abaty Tyndyrn, Sir Fynwy, rhan o rwydwaith o 37 ar draws 13 o safleoedd Cadw.

Yn ystod 2024–25, fe wnaethom asesu dros 119 o adeiladau hanesyddol a 6 heneb ledled Cymru i ystyried a oeddent yn bodloni'r meini prawf llym i gael gwarchodaeth arbennig fel adeilad rhestredig (Tabl 4) neu heneb gofrestredig (Tabl 5).





Top: Labordy Brambell, Prifysgol Bangor — tirnod Brwtalaidd a restrir fel rhan o arolwg Cadw o bensaernïaeth Cymru ar ôl y rhyfel.

Uchod: Neuadd Fawr, Prifysgol Aberystwyth — wedi'i rhestru fel rhan o arolwg thematig Cadw o bensaernïaeth ar ôl y rhyfel, gyda ffocws penodol ar safleoedd Prifysgol Cymru.

Roedd uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys rhestru Neuadd Fawr Prifysgol Aberystwyth a Labordy Brambell Prifysgol Bangor — dau eicon Brwtalaidd arwyddocaol a ddyluniwyd gan Bartneriaeth Percy Thomas. Dynodwyd y ddau adeilad yn sgil gwaith yr arolwg thematig parhaus o bensaernïaeth Cymru ar ôl y rhyfel (1945–85), sydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar safleoedd sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Cymru.

Cwblhawyd y prosiect *Taking Stock*, mewn partneriaeth â'r Eglwys Gatholig, yn ystod y flwyddyn hefyd gyda'r bwriad o adolygu dynodiadau ei hadeiladau. Ymysg yr eglwysi sydd newydd eu rhestru ceir Eglwys Sant Tudwal, Abermaw, Gwynedd (1905), sydd wedi llwyddo i gadw'r math o allor gywrain a gollwyd mewn llawer o eglwysi yn dilyn diwygiadau'r Fatican II, ac Eglwys





Top: Eglwys Sant Tudwal, Abermaw — wedi'i rhestru yn dilyn y prosiect *Taking Stock*, sy'n nodedig am gadw nodweddion addurnedig ei hallor o'r cyfnod cyn y Fatican II.

Uchod: Ein Harglwyddes o Lourdes, Benllech — wedi'i rhestru am ei dyluniad arloesol ar ôl y Fatican II.

Ein Harglwyddes o Lourdes, Benllech, Ynys Môn (1965), enghraifft o'r rhyddid, yr arbrofi a'r meddylfryd pensaernïol newydd a ddaeth i'r amlwg yn nyluniad eglwysi ar ôl y Fatican II. Gwaith y penseiri Stewart Powell Bowen a Bill Davies o Gymru yw eglwys Benllech.

Mae manylion llawn y grantiau refeniw (Tabl 2) a'r grantiau cyfalaf (Tabl 3) a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi yn yr atodiad. Mae'r rhain wedi galluogi'r sector amgylchedd hanesyddol ehangach i ddarparu cyngor a gwasanaethau arbenigol ar lefel strategol a gwaith achos.

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau grant a gefnogwyd eleni:

# Eglwys San Silyn, Wrecsam

**Caiff eglwys restredig Gradd I San Silyn ei chydnabod fel un o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth eglwysig yng Nghymru. Codwyd y rhan fwyaf ohoni ar ddiwedd y bymthegfed ganrif, ond y tu mewn iddi ceir elfennau o eglwys gynharach o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Codwyd yr adeilad mewn sawl cam, ac fe'i cwblhawyd pan orffennwyd y tŵr rhwng 1506 a 1520.**

Mae gwarchod gwaith cerrig ar adeilad mor sylweddol yn her barhaus. Rhaid mynd i'r afael ag effeithiau oedran, hindreuliad, llygredd, rhwd yn y gwaith haearn, a difrod o atgyweiriadau cynharach, ac amhriodol bellach, a wnaed â sment.

Mae Cadw wedi cyfrannu £167,592 drwy'r rhaglen grant cyfalaf adeiladau hanesyddol i gefnogi gwaith cadwraeth hanfodol. Mae hyn wedi cynnwys atgyweiriadau i waith maen yr ystlys ddeheuol a'r gangell, ailosod y plwm ar do'r gangell ac adnewyddu cafnau dŵr ac ati. Gwnaed addasiadau hefyd i'r allfeydd dŵr glaw i helpu'r adeilad i ymdopi â glawiad trymach — mesur pwysig wrth addasu mewn ymateb i newid hinsawdd.

Mae'r gwaith yma wedi diogelu'r gangell, cryfhau gallu'r eglwys i ymdopi â newid hinsawdd, ac wedi creu cyfleoedd hyfforddi i ddau brentis mewn gwaith maen traddodiadol.

Ar y dde: Cangell yr eglwys, wedi'i diogelu ar gyfer y dyfodol trwy waith cadwraeth â chymorth grant.






Eglwys San Silyn, Wrecsam — tirnod rhestredig Gradd I, wedi'i gadw gyda chymorth grant Cadw.

## Hen goetsiws a stablau, Plas Machynlleth, Powys





**Credir bod y coetsiws a'r stablau rhestredig Gradd II yn dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac maen nhw'n rhan o ystâd restredig Gradd II* Plas Machynlleth. Ar ôl cael eu gadael yn wag am sawl blwyddyn, ystyriwyd bod yr adeiladau yn rhai mewn perygl.**

Gyda £105,784 o raglen grant cyfalaf adeiladau hanesyddol Cadw, ochr yn ochr â chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chyngor Sir Powys, cafodd strwythur yr adeilad ei sefydlogi a gwnaed yn siŵr ei fod yn gallu gwrthsefyll gwynt a thywydd garw. Roedd y gwaith yn cynnwys ailosod y toeau a gwneud atgyweiriadau i'r clochdy.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o brosiect mwy a fydd yn dychwelyd y coetsiws at ddefnydd cymunedol.

Top: Y coetsiws a'r stablau ym Mhlas Machynlleth—adeiladau rhestredig Gradd II gwag a nodwyd ar un adeg fel rhai mewn perygl.

Gwaelod: Coetsiws a stablau Plas Machynlleth yn dilyn gwaith cadwraeth i wneud yr adeiladau'n strwythurol gadarn a sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll y tywydd.

## Eglwys Sant Lawrens, Gumfreston, Sir Benfro



**Roedd Eglwys Sant Lawrens, adeilad rhestredig Gradd II*, wedi adfeilio'n ddifrifol ac fe'i rhoddwyd ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl heb unrhyw ddefnydd hyfyw yn y dyfodol. Ar ôl ei chaffael, dechreuodd Cyfeillion Eglwysi Digyfaill raglen gadwraeth fawr, a gyflawnwyd mewn dau gam.**

Roedd Cam I yn canolbwyntio ar waith strwythurol hanfodol, gan gynnwys gwaith helaeth i atgyfnerthu'r cerrig ac i atgyweirio'r to rhag y tywydd. Yn ystod y cam hwn, daeth cadwraethwyr o hyd i baentiadau wal canoloesol a oedd wedi'u cuddio o dan blastr sment Fictoraidd.

Mae Cam 2, a ariennir yn rhannol gan Cadw, yn canolbwyntio ar waith cadwraeth arbenigol ar gyfer y paentiadau hyn. Mae'r ychydig o ganfyddiadau unigol a wnaed ar y dechrau bellach wedi tyfu'n sylweddol wrth i'r gwaith o dynnu plastr fynd rhagddo, gan ddatgelu llawer o ddelweddau canoloesol — yn enwedig o amgylch bwa'r gangell. Mae'r holl ganfyddiadau yn cael eu cofnodi ac efallai y bydd arwyddocâd y gwaith celf yn cyfiawnhau uwchraddio cofrestriad yr eglwys i Radd I, unwaith y bydd y gwaith cadwraeth ac asesu wedi'i gwblhau.

Chwith: Eglwys Sant Lawrens, adeilad Gradd II* a oedd ar un adeg ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl, o dan sgaffaldiau yn ystod gwaith cadwraeth mawr i sicrhau bod yr eglwys yn gallu gwrthsefyll y tywydd.

Pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau, bydd yr eglwys yn ailagor yn ddyddiol at ddefnydd y gymuned leol ac ymwelwyr o dan ofal Cyfeillion Eglwysi Digyfaill. Bydd y defnydd newydd hwn yn galluogi'r adeilad i gael ei dynnu oddi ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl. Fe wnaeth y prosiect ymdrech i gynnwys pobl leol ac mae wedi helpu i gefnogi datblygiad sgiliau adeiladu traddodiadol.

## Clawdd Offa

**Eleni gwnaed gwaith cadwraeth mawr ar hyd rhan o Glawdd Offa sydd wedi'i erydu'n wael.**

Mae'r prosiect yn rhan o bartneriaeth ehangach rhwng Cadw, Historic England a Chyngor Swydd Amwythig, ac mae hefyd yn cynnal swyddog ymroddedig i hyrwyddo cadwraeth hirdymor y clawdd.



Gwaith cadwraeth ar ran o Glawdd Offa ym Murfa sydd wedi'i erydu'n drwm, wedi'i gyflawni mewn partneriaeth.

# Ehangu mynediad i’r amgylchedd hanesyddol, a mwynhad a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir

**1,001,529**

O ymwelwyr â safleoedd Cadw sydd wedi’u staffio.

↓ **gostyngiad o 14% o 1,161,475 yn 2023–24**

**58,003**

O aelodau Cadw.

↓ **gostyngiad o 2% o 59,402 yn 2023–24**

**3,353,993**

O ymweliadau â thudalennau gwefan Cadw.

**769,007**

O bobl wedi defnyddio gwefan Cadw.

**2,206,820**

O sesiynau gwefan Cadw.

**138,000**

O ymwelwyr wedi mynd i 270 o ddigwyddiadau cymunedol a masnachol ar draws safleoedd Cadw.

**47,387**

O ymwelwyr â safle treftadaeth yng Nghymru fel rhan o ŵyl Drysau Agored Cadw, gan gefnogi 616 o ddigwyddiadau mewn 200 o leoliadau.

**1,644**

O ymwelwyr o grwpiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi cael mynediad am ddim i safleoedd Cadw fel rhan o gynllun wedi’i dargedu.

# Ehangu mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, a mwynhad a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir

**Bob blwyddyn, mae Cadw yn croesawu mwy na miliwn o ymwelwyr i'r henebion sydd yn ein gofal, gan ddarparu cyfleoedd i bobl o bob cefndir fwynhau ac ymgysylltu â threftadaeth gyfoethog Cymru.**

Yn 2024–25, llwyddodd rhaglen ddigwyddiadau Cadw i gyflwyno 270 o ddigwyddiadau, gan ddenu 138,000 o ymwelwyr i gael blas ar hanes a diwylliant Cymru.

Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys gosodiad golau a sain *Cysgodion Tyndyrn*, a ddaeth â thechnoleg flaengar i abaty Sistersaidd mwyaf adnabyddus Cymru, a *Warning Notes*, gosodiad sain gan yr artist rhyngwladol arobryn Mark Anderson yng Ngwaith Haearn Blaenafon. Ochr yn ochr â'r digwyddiadau blaenllaw hyn, cynhaliwyd ystod eang o ddigwyddiadau hanes byw a digwyddiadau ail-greu i ddod â gorffennol Cymru yn fyw.



Daeth digwyddiadau ail-greu â hanes Cymru'n fyw fel rhan o raglen Cadw o 270 o ddigwyddiadau, a fynychwyd gan 138,000 o ymwelwyr.

Cyflwynwyd rhaglen archebu teithiau tywys newydd Cadw yn ystod 2024 hefyd, a hynny mewn saith safle heb staff, gan gynnwys Beddrod Siambr Barclodiad y Gawres, Cae'r Gors, Abaty Glyn y Groes, Hen Eglwys Llangar, Capel y Rug, Caer Rufeinig Segontium a Chastell Oxwich.

Ym mis Medi, bu Cadw'n cydlynu Drysau Agored — gŵyl dreftadaeth fwyaf Cymru. Eleni, cynhaliwyd 616 o ddigwyddiadau mewn mwy na 200 o leoliadau yn ystod y rhaglen, gan groesawu 47,387 o ymwelwyr i safleoedd treftadaeth ledled Cymru.

Lansiwyd Cadw Cymru, y fersiwn Gymraeg gyntaf erioed o Minecraft Education, yng Nghastell Conwy. Mwynhaodd disgyblion o Ysgol Pennant — a helpodd i gynnal profion defnyddwyr — a'r Ceidwaid Ifanc lleol o Ysgol Minafon daith go iawn o amgylch y castell i gyd-fynd â'u profiad yn y gêm, gan roi cyfle iddyn nhw gymharu'r amgylcheddau digidol a ffisegol.

Gwelwyd bod Minecraft yn ffordd effeithiol o ennyn diddordeb dysgwyr ifanc. Caiff ei gefnogi gan y Pecyn Adnoddau Iaith Gymraeg ac mae'n helpu dysgwyr i gysylltu â'u treftadaeth a'r Gymraeg. Mae buddsoddiad pellach yn y prosiect wedi'i gynllunio ar gyfer 2025–26.

Ym mis Rhagfyr, cafodd prosiect Bryn Celli Ddu Cadw a'i brif ddigwyddiad 'Gwreiddiau', ddwy anrhydedd fawr yng Ngwobrau Cyflawniad Archeolegol 2024. Enillwyd y Wobr Cyflawniad Eithriadol a'r Wobr Ymgysylltu a Chyfranogiad. Cyngor Archaeoleg Prydain sy'n cyd-lynu'r gwobrau, sy'n dathlu rhagoriaeth yn y DU ac Iwerddon, ac maen nhw'n cael eu hystyried yn un o uchafbwyntiau allweddol y calendr archeolegol.

Cafodd tîm Dysgu Gydol Oes Cadw gydnabyddiaeth eleni hefyd. Dyfarnwyd gwobr arian iddyn nhw yng Ngwobrau Proffesiwn Cyflenwi Gweithredol y DU am eu hymrwymiad i ymgysylltu ag ieuenctid a'r gymuned.









Top: Ymwelwyr ar daith dywys yng Nghastell Oxwich, rhan o raglen Cadw o ddigwyddiadau yr oedd modd eu harchebu a gyflwynwyd mewn safleoedd dethol heb staff.

Top canol: Ymwelwyr ar daith dywys o amgylch Priordy Ewenni ym Mro Morgannwg yn ystod Drysau Agored, gŵyl dreftadaeth genedlaethol Cymru.

Gwaelod canol: Bu plant yn archwilio Cadw Cymru yn Minecraft yn ei lansiad yng Nghastell Conwy, gan gymharu'r byd digidol â'r safle go iawn.

Gwaelod: 'Gwreiddiau' ym Mryn Celli Ddu, digwyddiad arobryn sydd wedi cael ei gydnabod am hybu diddordeb mewn archeoleg yng Nghymru a chymryd rhan ynddo.







Top: Cymerodd plant ran mewn gweithgaredd cloddio ymarferol fel rhan o raglen haf Bwyd a Hwyl Cadw.

Canol: Daeth dehonglydd mewn gwisg â hanes yn fyw yn Abaty Nedd, gan ennyn diddordeb disgyblion drwy adrodd straeon, cerddoriaeth a dysgu ymarferol.

Gwaelod: Mae rhwystrau diogelwch gwydr newydd yng Nghastell Harlech yn gwella mynediad ond yn aros bron yn anweledig, gan gadw silwét dramatig y castell.

Yn 2024–25, parhaodd tîm Dysgu Gydol Oes Cadw i gefnogi Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol, Bwyd a Hwyl — menter yn yr ysgol sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgareddau cyfoethogi a phrydau iach i blant drwy gydol gwyliau'r haf. Fe wnaethom gyflwyno dros 51 o weithdai addysgol sy'n seiliedig ar dreftadaeth a phrofiadau ymarferol diddorol i 1,743 o ddysgwyr ledled Cymru.

Hefyd yn 2024, parhawyd â rhaglen Ceidwaid Ifanc yn Abaty Castell-nedd — ein cyntaf yn ne Cymru — gan adeiladu ar y model llwyddiannus sydd eisoes wedi'i sefydlu yn y gogledd. Mae'r fenter hon yn meithrin balchder, perchnogaeth a dealltwriaeth ddyfnach o'r safle ymhlith pobl ifanc leol, sy'n arbennig o bwysig ar ôl cwblhau cyfnod hir o gadwraeth ar y safle.

Mae'r rhaglen yn cynnwys trawsnewid Abaty Nedd yn ystafell ddosbarth awyr agored am un diwrnod y flwyddyn. Gyda chymorth Cadw, defnyddiodd y disgyblion leoliadau unigryw'r abaty i ddysgu am fathemateg, gwyddoniaeth, llythrennedd a hanes, gan roi bywyd i'w gwersi trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r dreftadaeth o'u cwmpas.

Mae brwdfrydedd a gwybodaeth gwirfoddolwyr Cadw yn ein galluogi i gynnig profiadau cyfoethocach ac i gefnogi ein cenhadaeth i ddiogelu a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol. Yn 2024–25, adeiladodd prosiect Cynefin ar yr ymrwymiad hwn drwy greu adnodd dysgu gan wirfoddolwyr sy'n helpu pobl ifanc i ystyried eu hanes lleol a'u hymdeimlad o le.

Cafodd ei ddatblygu gyda thîm Dysgu Gydol Oes Cadw i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n cyflwyno disgyblion i themâu allweddol yn hanes Cymru yn ogystal â meithrin sgiliau ymholi a meddwl beirniadol. Trwy weithgareddau rhyngweithiol, trawsgwricwlaidd, mae'r prosiect yn annog dysgwyr i ddod yn 'dditectifs hanes' a dyfnhau eu cysylltiad â threftadaeth Cymru.

Parhaodd rhaglen Cadw o wella mynediad at ei henebion eleni pan osodwyd rhwystrau diogelwch newydd ar hyd y waliau yng Nghastell Harlech, rhan o Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefol y Brenin Edward yng Ngwynedd. Mae'r rhwystrau newydd — sy'n wydr â chyda chanllawiau main — wedi'u cynllunio'n ofalus i fod bron yn anweledig o'r llawr, gan sicrhau nad ydynt yn amharu ar silwét dramatig Harlech rhwng y môr a'r mynydd.

Cerdded y muriau yw un o hoff bethau ymwelwyr cestyll Cymru, lle gallan nhw fwynhau golygfeydd syfrdanol dros yr ardal, a'r cyffro o fod yn uchel uwchben y ddaear. Yn Harlech, gall y mannau hyn deimlo'n arbennig o agored, yn enwedig pan fydd hi'n wyntog. Mae'r rhwystrau newydd wedi gwella hyder a thawelwch meddwl ymwelwyr yn sylweddol, gan ganiatáu i fwy o bobl fwynhau'r profiad yn ddiogel heb ymyrryd ar edrychiad y lleoliad.

## *Cysgodion Tyndyrn*

Bu miloedd o ymwelwyr yn mwynhau profiad gyda'r nos gwirioneddol atmosfferig wrth i Abaty Tyndyrn ddod yn fyw trwy olau, sain a thân. Daeth dros 2,500 o bobl i dir yr abaty ar lan afon Gwy i ryfeddu ar y cyfuniad o gelfyddyd fodern a phensaernïaeth ganoloesol. Roedd adborth gan y gynulleidfa'n adlewyrchu effaith y digwyddiad, gan ddal ei hud.

> Nid yw'r lluniau'n gallu cyfleu'r ymdeimlad anhygoel o le a grëwyd. Roedd pobl yn crwydro o gwmpas yn gegrwth. Profiad bythgofiadwy i'r synhwyrau!




Abaty Tyndyrn wedi'i oleuo â golau, sain a thân, wrth i filoedd ymgynnull ar gyfer digwyddiad nos atmosfferig yn cyfuno celfyddyd fodern gyda phensaernïaeth ganoloesol.

# *Warning Notes* yng Ngwaith Haearn Blaenafon



Cafodd y Tŵr Cydbwyso ei oleuo yn ystod *Warning Notes*, wrth i Waith Haearn Blaenafon gael ei drawsnewid yn fyd trochol o sain, golau a pherfformiad.

Roedd *Warning Notes* yng Ngwaith Haearn Blaenafon yn cynnig profiad sonig pwerus i ymwelwyr a oedd yn llawn ing, seinweddau newidiol a barddoniaeth. Wrth iddi nosi, trawsnewidiwyd y gwaith haearn yn fyd sain cyfareddol, gyda pherfformiad byw awyr agored a oedd yn newid yn barhaus mewn ymateb i leoliad diwydiannol y safle. Dywedodd un aelod o'r gynulleidfa ei fod yn:

> "Fyd curiadol, godidog a bygythiol wedi'i wau o gerfluniau sain a nodau hardd, rhythmig."

# Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n gryf at les economaidd Cymru a'i chymunedau

## Gweithgarwch masnachol Cadw

**£10,455k**
Cyfanswm yr incwm masnachol.

↑ cynnydd o 1% o £10,319k yn 2023–24

## Roedd hyn yn cynnwys:

**£6,465k**
mewn incwm o dâl mynediad.

**£1,273k**
mewn incwm aelodaeth.

**£2,373k**
mewn incwm gwerthiant manwerthu.

**£152k**
mewn incwm llogi masnachol.

**£192k**
o ystadau a ffynonellau incwm eraill.

# Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n gryf at les economaidd Cymru a'i chymunedau


**Gostyngodd cyfanswm nifer yr ymwelwyr â safleoedd Cadw yn 2024–25 14% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yn rhannol o ganlyniad i ddyddiad y Pasg eleni, gyda dim ond un wythnos o wyliau ysgol yn 2024–25 o'i gymharu â thair wythnos yn y flwyddyn flaenorol, ochr yn ochr â gostyngiad o 10% yn y teithiau cyffredinol i Gymru — Ystadegau twristiaeth domestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): 2024 — LLYW.CYMRU.**

Er gwaethaf llai o ymwelwyr, cofnododd Cadw gynnydd o 1% yng nghyfanswm yr incwm o'i gymharu â'r llynedd. Cafodd hyn ei yrru gan gynnydd mewn prisiau tymhorol ar chwe safle yn ystod yr haf, gan gynhyrchu £136k ychwanegol, ochr yn ochr â chynnydd o 17% mewn incwm aelodaeth yn erbyn y gyllideb.

Chwyddodd nifer aelodau Cadw yn ystod 2024–25, gan godi o 28,370 i 28,684, twf o 1%. Hefyd, cyrhaeddodd incwm masnach ei lefel uchaf erioed, sef £402k. Mae hyn yn adlewyrchu presenoldeb gweithredol tîm masnachol Cadw mewn sioeau masnach, cyflwyniad y system archebu ar-lein newydd, a'r gwaith agos a wnaed gyda Croeso Cymru i wneud y mwyaf o gyfathrebu a sbarduno nifer yr ymwelwyr masnach.

Mae'r holl incwm a gynhyrchir gan Cadw yn cael ei ailfuddsoddi yn y gwaith a wnawn i gefnogi cadwraeth ac i reoli ein hamgylchedd hanesyddol ac i'w wneud yn haws i'r cyhoedd ei fwynhau. Yn ystod blwyddyn ariannol 2024–25, cyflwynwyd dwy fenter newydd a oedd yn cefnogi'r nodau hyn yn uniongyrchol:

- Yn ystod dathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr ym mis Medi, ac er mwyn nodi'r dyddiad pan arwisgwyd arwr cenedlaethol Cymru yn Dywysog Cymru gan ei ddilynwyr yn 1400, cynigiodd Cadw fynediad am ddim i'w safleoedd i bawb dan 18 oed. Helpodd y fenter hon i gysylltu cynulleidfaoedd iau â chyfnod tyngedfennol yn hanes Cymru.
- Cwblhawyd *Llawlyfr Cadw: Canllaw i fwy na 100 o leoedd hanesyddol yng Nghymru* a chafodd ei ddosbarthu i aelodau Cadw gyda rhifyn y Pasg o gylchgrawn *Etifeddiaeth y Cymry*. Mae'r llawlyfr ar werth am £9.95, ac mae hefyd ar gael i'w brynu ym mhob safle Cadw sydd â staff a thrwy siopau llyfrau annibynnol ledled Cymru.






Top: *Llawlyfr Cadw*, wedi'i ddosbarthu i aelodau ac ar gael ar safleoedd Cadw ac mewn siopau llyfrau.

Uchod: Cynigiodd Cadw fynediad rhad ac am ddim i blant dan 18 oed yn ystod dathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr ym mis Medi.

## Parc Margam

Castell Margam, adeilad rhestredig Gradd I, yw un o dirnodau hanesyddol mwyaf trawiadol Cymru. Dros amser, fodd bynnag, roedd ei waith cerrig cymhleth — y ffinialau, y tyredau, y tyrau a'r simneiau — wedi dirywio cymaint nes bod rhannau o'r strwythur yn anniogel, gan gynnwys y nenfwd plastr trawiadol yn y fynedfa.

Er mwyn diogelu'r adeilad a galluogi'r brif neuadd i aros ar agor i'r cyhoedd, cyfrannodd Cadw grant o 50% o £800,000 tuag at y gwaith adfer hanfodol. Mae natur hynod arbenigol yr atgyweiriadau hefyd wedi creu cyfleoedd dysgu ymarferol gwerthfawr mewn gwaith maen traddodiadol, gan gefnogi datblygiad parhaus sgiliau treftadaeth a chrefft.

Y buddsoddiad hwn oedd y cam cyntaf mewn gweledigaeth ehangach i adfer, ailddehongli ac agor mwy o Gastell Margam i ymwelwyr. Roedd hefyd yn help i Gyngor Castell-nedd Port Talbot sicrhau cyllid allanol mawr i gefnogi adfywiad hirdymor y safle.

Hyd yn hyn, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi dyfarnu Grant Datblygu o £900,030 ar gyfer prosiect *Ailddychmygu Castell Margam*, gyda'r potensial am Grant Cyflawni arall o £9 miliwn yn amodol ar gwblhau camau yn y dyfodol yn llwyddiannus. Bu Cadw'n cydweithio'n agos â'r cyngor drwy gydol y broses hon, gan helpu i lunio'r cynigion a arweiniodd at y dyfarniad cyllid llwyddiannus.



Roedd gwaith adfer nenfwd plastr addurnedig Castell Margam, gyda chefnogaeth ariannol Cadw, yn rhoi hyfforddiant ymarferol mewn sgiliau cerrig nadd traddodiadol.

# Datblygu ein pobl, ein prosesau a'n partneriaethau i'n galluogi i wireddu ein huchelgeisiau

**Mae treftadaeth yn rhan hanfodol o'n hunaniaeth, mae'n cyfoethogi cymunedau ac yn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Deellir bod ymuno mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i unigolion, i gymunedau ac i les y gymdeithas ehangach.**

Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a'i rheoliadau ategol i rym ar 4 Tachwedd 2024. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio'r cod amgylchedd hanesyddol sy'n sefydlu sylfaen ddiogel ar gyfer datblygu cyfraith hygyrch ac effeithiol yn y dyfodol er budd amgylchedd hanesyddol unigryw a gwerthfawr ein cenedl. Cymru sydd bellach â'r ddeddfwriaeth amgylchedd hanesyddol fwyaf diweddar o holl wledydd y DU. Er bod y ddeddfwriaeth newydd wedi gwneud gwelliannau sylweddol i sut mae canfod, deall a chymhwyso'r gyfraith, nid yw'n newid y ffordd y mae'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli'n ymarferol ar hyn o bryd.

Parhaodd Cadw i ystyried ffyrdd newydd o ddod â chymunedau lleol yn nes at ei leoliadau, gan gefnogi llesiant economaidd a chreu cyfleoedd i bobl leol weithio'n uniongyrchol gydag amgylchedd hanesyddol Cymru.





Yn Abaty Ystrad Fflur ger Pontrhydfendigaid, sefydlodd Cadw bartneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur. Er mai Cadw sy'n parhau i fod yn gyfrifol am ofal a chadwraeth yr heneb ei hun, mae'r cyfrifoldeb am bob agwedd arall ar brofiad yr ymwelydd wedi'i drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth. Er mwyn cefnogi hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi recriwtio tri cheidwad ac wedi cyflogi contractwyr lleol i gynnal a chadw'r tir. Mae'r bartneriaeth hon wedi gwella profiad ymwelwyr, cynyddu nifer yr ymwelwyr a darparu model mwy cost-effeithiol ar gyfer rheoli'r safle eiconig hwn.

Ers cyhoeddi Adolygiad o *Drefniadau Llywodraethu Presennol Cadw* ym mis Rhagfyr 2023, mae gwaith wedi'i gwblhau i sefydlu Fframwaith Gweithredol newydd Cadw. Mae'r fframwaith hwn yn ffurfioli dirprwyaethau gweithredol, yn egluro gwaith a chyfrifoldebau, ac yn egluro'r gwaith cynghorol pwysig a wna Bwrdd Cadw.

Mae'r cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad yn cynnwys datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cadw a Gweinidogion Cymru. Bydd hyn yn rhoi gwedd gliriach ar annibyniaeth broffesiynol mewn meysydd rheoleiddio penodol, gan gynnwys penderfyniadau dynodi, rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, penderfyniadau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, a swyddogaethau cynllunio. Mae ffurfioli'r arferion presennol hyn yn atgyfnerthu diben Cadw fel ffynhonnell ddibynadwy ac awdurdodol o gyngor arbenigol ar faterion treftadaeth.

Chwith: Aelodau o dîm Cadw a gefnogodd Weinidogion Cymru i gyflwyno Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Uchod: Drws gorllewinol eglwys yr abaty yn Abaty Ystrad Fflur, Ceredigion.

# Atodiad

## Tabl 1
Crynodeb ariannol ar gyfer 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2025

| **Incwm refeniw** | **Swm** |
|---|---|
| Incwm masnachol | £10,455,000 |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | £17,324,000 |
| **Cyfanswm** | **£27,779,000** |

| **Gwariant refeniw** | **Swm** |
|---|---|
| Cyflogau | £11,220,000 |
| Gwariant ar raglenni | £16,559,000 |
| **Cyfanswm** | **£27,779,000** |

| **Incwm cyfalaf** | **Swm** |
|---|---|
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | £5,161,000 |
| Cyllid partneriaeth | £226,000 |
| **Cyfanswm** | **£5,387,000** |

| **Gwariant cyfalaf** | **Swm** |
|---|---|
| Eiddo mewn gofal | £3,204,000 |
| Grantiau cyfalaf | £1,921,000 |
| Dehongli | £224,000 |
| Gwasanaethau i ymwelwyr | £38,000 |
| **Cyfanswm** | **£5,387,000** |

## Tabl 2
Grantiau Refeniw Cadw 2024–25

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| **Grantiau Refeniw yr Amgylchedd Hanesyddol a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau dros £10,000** | | |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi | Ailsefydlu'r fforwm mannau addoli hanesyddol, ymgynghori a dod â phobl at ei gilydd i greu strwythur a strategaeth wedi'i hadnewyddu ar gyfer y fforwm, a threfnu a rheoli cyfres o gyfarfodydd rheolaidd. | £10,000.00 |
| Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth | Cyfrannu at weithgareddau'r Rhwydwaith i hyrwyddo a chefnogi ymddiriedolaethau treftadaeth a sefydliadau cymunedol eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chadwraeth, adfer ac ailddefnyddio asedau treftadaeth. | £10,273.00 |
| Cyngor Archaeoleg Prydain (CBA) | Cefnogi gwaith Cyngor Archaeoleg Prydain i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol ac i hyrwyddo cyfranogiad ac ymgysylltiad â threftadaeth, yn ogystal â chyfrannu at brosiect ymchwil Arolwg Anghenion y Cyhoedd a Defnyddwyr 2 (PUNS2) yng Nghymru. | £28,938.00 |
| Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru | Cefnogi gwaith y sefydliad o ofalu am gapeli anghydffurfiol o bwysigrwydd hanesyddol nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio. | £73,456.00 |
| Cyfeillion Eglwysi Digyfaill | Cefnogi gwaith Cyfeillion Eglwysi Digyfaill o ofalu am eglwysi yng Nghymru nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio. | £89,183.00 |
| Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru | Cadw a gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru, gan gynnwys:<br>• Cofnodion, arolygon, asesiadau, cloddiadau a briffiau gwylio archaeolegol sy'n gysylltiedig â bygythiad<br>• Nodi asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol<br>• Cynnal a rheoli'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol (HER)<br>• Cefnogi rheolaeth gynaliadwy ar amgylchedd hanesyddol Cymru drwy ddarparu cyngor cynllunio a rheoli curadurol ar sail ranbarthol<br>• Hybu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o dreftadaeth Cymru. | £1,311,815.00 |
| Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig | Cefnogi'r gwaith o reoli a gweinyddu'r amgueddfa fel Amgueddfa Achrededig sy'n agored i'r cyhoedd er mwyn:<br>• Sicrhau lefel briodol o ofal a rheolaeth ar arteffactau ac eitemau eraill sy'n ffurfio casgliadau craidd yr amgueddfa i'r safonau sy'n ofynnol gan y Cynllun Achredu<br>• Darparu dysgu gydol oes a gwasanaethau ymgysylltu ac addysgu cyhoeddus eraill. | £94,762.50 |
| Castell Nanhyfer | Cefnogaeth ar ôl y gwaith cloddio a chyhoeddi cloddiadau yng Nghastell Nanhyfer. | £13,728.00 |
| Amgueddfa Cymru | Cefnogaeth ar ôl y gwaith cloddio a chyhoeddi cloddiadau yn nhref Rufeinig *Venta Silurum*, Caerwent. | £10,400.00 |
| Partneriaeth Tirwedd y Carneddau | Darparu cymorth arian cyfatebol i Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau yn ystod Blwyddyn 5 Cyfnod Cyflawni (2024–25) Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau. | £20,000.00 |
| Cyngor Gwynedd | Cydlynydd Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru. | £25,486.17 |
| Cyngor Swydd Amwythig | Swydd Swyddog Prosiect i gyflawni rhaglen waith o dan Gynllun Rheoli Cadwraeth Clawdd Offa mewn partneriaeth â Cadw, Historic England a Chymdeithas Clawdd Offa. | £34,807.41 |
| **Grantiau o dan £10,000 (8 grant)** | | **£33,237.45** |
| **Cyfanswm Grantiau Refeniw 2024–25** | | **£1,756,086.53** |

## Tabl 3
Grantiau Cyfalaf Cadw 2024–25

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
| --- | --- | --- |
| **Grantiau Cyfalaf Henebion a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau Henebion dros £10,000** | | |
| Gwersyll Pen Dinas, Aberystwyth, Ceredigion | Rheoli llystyfiant, allgymorth, gwaith ar ôl cloddio a chyhoeddi. | £15,000.00 |
| Clawdd Offa | Ymgymryd â phrosiectau cadwraeth 'arddangos' Blwyddyn 3 ar rannau dethol o Glawdd Offa, sy'n ffurfio rhan o Brosiect Cadwraeth Clawdd Offa ehangach, trawsffiniol, a thair blynedd o hyd dan arweiniad partneriaeth rhwng Cadw, Historic England, Cyngor Sir Amwythig a Chymdeithas Clawdd Offa. | £78,289.84 |
| Gwaith Haearn Brymbo, Wrecsam | Cydgrynhoi, cadwraeth ac atgyweirio wal lwytho'r ffwrnais chwyth gynnar hon, y todd-dy a'r ffowndri. | £159,563.86 |
| **Grantiau Henebion dan £10,000 (4 grant)** | | **£16,660.76** |
| **Cyfanswm Grantiau Henebion 2024–25** | | **£269,514.46** |

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
| --- | --- | --- |
| **Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol dros £10,000** | | |
| Eglwys Sant Tysilio, Sir Ddinbych | Adnewyddu'r to llechi presennol oherwydd bod dŵr yn dod i mewn ac i ddiogelu gorffeniadau, gosodiadau a ffitiadau mewnol rhag difrod pellach. | £39,970.55 |
| Eglwys San Silyn, Wrecsam | Atgyweiriadau i'r to a'r bwtresi. | £150,000.00 |
| Hen goetsiws a stablau, Plas Machynlleth, Powys | Atgyweiriadau i'r to, tyrrau'r clychau, y lintelydd a pharapetau'r talcen. Gosod cafnau dŵr newydd ac ati, gwaith ar y gwteri a'r draeniau tanddaearol. | £105,783.50 |
| Cwrt Insole, Caerdydd | Atgyweiriadau i'r toeau serth a gwastad, y landeri a phibellau dŵr glaw, yn ogystal ag atgyweirio ac ailosod ffenestri a fframiau. | £96,250.00 |
| Dyfrbont Aberbechan, Llandysul, Powys | Ail-leinio'r ddyfrbont â brics; llenwi gwagleoedd ac atgyweirio'r llwybr halio; ac atgyweirio meini'r bwâu. | £220,282.30 |
| Melin Daron, Aberdaron, Gwynedd | Ailadeiladu'r pentis i gadw offer i wasanaethu'r felin, atgyweirio'r gornel ogledd-ddwyreiniol, adfer y pwll a gwaith i atgyfnerthu'r argae. | £116,454.88 |
| Yr Hen Gapel, Llwynrhydowen, Ceredigion | Atgyweiriadau i'r talcen deheuol a gwaith mewnol cysylltiedig. | £42,500.00 |
| Adfywio Blaendraeth y Fflint | Dyluniadau cysyniadol ar gyfer Canolfan Treftadaeth Gymunedol ar dir ger Castell y Fflint. | £15,706.70 |

## Tabl 3 (parhau)
Grantiau Cyfalaf Cadw 2024–25

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| **Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol dros £10,000** | | |
| Coleg Harlech, Gwynedd | Cyfraniad at grant Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i dalu am gostau gwaith yn y Wern Fawr, Coleg Harlech, Gwynedd, gan gynnwys toeau dros dro ac atgyweiriadau lleol i atal dŵr rhag mynd i mewn. | £10,000.00 |
| Cronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF) | Cefnogi rhaglen 'Heritage Transformed in Wales' yr AHF, gan gynnwys dyfarnu grantiau hyfywedd prosiectau, grantiau datblygu prosiectau a grantiau gwaith cyfalaf, yn ogystal â chostau craidd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen a chyfraniad at gostau craidd yr AHF. | £450,000.00 |
| **Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol o dan £10,000 (0 grant)** | | **£0.00** |
| **Cyfanswm Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol 2024–25** | | **£1,246,947.93** |

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| **Grantiau Gwaith Brys ar Adeiladau Hanesyddol Awdurdodau Lleol a Ddyfarnwyd** | | |
| Grantiau Gwaith Brys ar Adeiladau Hanesyddol Awdurdodau Lleol dros £10,000 | AMH | £0.00 |
| Grantiau Gwaith Brys ar Adeiladau Hanesyddol Awdurdodau Lleol dan £10,000 (1 grant) | Cynorthwyo gyda'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno Hysbysiad Adran 215 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â 10 Church Street, Trefynwy. | £5,000.00 |
| **Cyfanswm Grantiau Gwaith Brys ar Adeiladau Hanesyddol Awdurdodau Lleol 2024–25** | | **£5,000.00** |
| **Cyfanswm Grantiau Cyfalaf 2024–25** | | **£1,521,462.39** |

## Tabl 4

Dynodiadau newydd adeiladau rhestredig: 2024–25

| Rhif Cyfeirnod | Enw | Awdurdod Unedol | Gradd |
|---|---|---|---|
| 87936 | Tŷ Cwrdd Bach, Cwm Gwaun, Abergwaun | Sir Benfro | II |
| 87938 | Carreg Filltir Telford (23), Bangor | Gwynedd | II |
| 87939 | Carreg Filltir Telford (28), Llanllechid | Gwynedd | II |
| 87940 | Carreg filltir Telford (46), Bro Garmon | Conwy | II |
| 87941 | Tŷ Hen (gan gynnwys modurdy Penygroes), Blaenau Ffestiniog | Gwynedd | II |
| 87873 | Eglwys Gatholig Christ The King, gan gynnwys muriau’r blaengwrt, colofnau’r giât a’r giât, Llanfair-ym-muallt | Powys | II |
| 87943 | Y Neuadd Fawr, Prifysgol Aberystwyth | Ceredigion | II* |
| 87944 | Tŵr y Gloch, Campws Penglais, Aberystwyth | Ceredigion | II |
| 87945 | Adeilad Hugh Owen, Campws Penglais, Aberystwyth | Ceredigion | II |
| 87946 | 59 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog | Gwynedd | II |
| 87947 | Gwesty'r Lion a Prospect House, Carreghofa, Llanymynech | Powys | II |
| 87948 | Labordy Brambell, Prifysgol Bangor | Gwynedd | II |
| 87950 | Carreg filltir y tu allan i 7 Hankey Terrace, Plymouth Street, Merthyr Tudful | Merthyr Tudful | II |
| 87942 | Canolfan Hamdden a Gweithgareddau Byd Dŵr Wrecsam, Acton | Wrecsam | II |
| 87953 | Porthdy a cholofnau giât hen Depo’r Cyflenwad Wrth Gefn, Y Barri | Bro Morgannwg | II |
| 87901 | Eglwys Gatholig yr Arglwyddes Fatima (gan gynnwys tŷ’r offeiriad), Y Bala | Gwynedd | II |
| 87903 | Eglwys Gatholig Crist y Brenin, Tywyn | Conwy | II |
| 87904 | Eglwys Gatholig Sant Joseff (gan gynnwys y tŷ offeiriad cysylltiedig), Bae Colwyn | Conwy | II |
| 87905 | Eglwys Gatholig Sant Joseff, Dinbych | Sir Ddinbych | II |
| 87906 | Eglwys Gatholig Sant Illtud, Rhuddlan | Sir Ddinbych | II |
| 87908 | Eglwys Gatholig Ein Harglwyddes o Lourdes, Benllech | Ynys Môn | II |
| 87909 | Cofeb i'r Esgob Brown ym mynwent eglwys Dewi Sant, Treffynnon | Sir y Fflint | II |
| 87918 | Eglwys Gatholig Dewi Sant, Yr Wyddgrug | Sir y Fflint | II |
| 87924 | Eglwys Gatholig Sant Tudwal (gan gynnwys y tŷ offeiriad cysylltiedig), Abermaw | Gwynedd | II |

## Tabl 5
Dynodiadau newydd: Henebion cofrestredig 2024–25

| Rhif Cyfeirnod | Enw | Awdurdod Unedol |
|---|---|---|
| CN419 | Chwarel Lechi a Thomenni Llechi Pen y Bryn, Llanllyfni | Gwynedd |
| GM637 | Celf Craig Cynhanesyddol yn Nhai'r Waun Isaf, Nelson | Caerffili |
| BR431 | Caer Rufeinig Cefn-Brynich, Aberhonddu | Powys |
| GM638 | Safle Balŵn Amddiffyn yr Ail Ryfel Byd Tir-Gwyllt, Bôn-y-maen | Abertawe |